# CYNGOR

## COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH AR DDYDD MAWRTH, 5ED MEHEFIN 2018 AM 5.00 PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd M.Adams - Maer
Y Cynghorydd J. Simmonds - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E. Aldworth, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, L. Binding, A. Collis, S. Cook, C. Cuss, W. David, M. Davies, D.T. Davies, K. Dawson, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, M. James, L. Jeremiah, S. Kent, G. Kirby, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Mss E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, A. Whitcombe, R. Whiting, L.G. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghŷd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau), J. Morgan (Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestryddion) D. Marr (Dirprwy Swyddog Monitro - Cyngor Caerdydd), L. Lane (Swyddog Monitro Dros Dro), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

**TREFNIADAU FFILMIO GWE-DDARLLEDU A PHLEIDLEISIO**

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y cyhoedd yn fyw a'i archifo drwy wefan y Cyngor. Dywedodd y byddai pleidleisio electronig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer eitem olaf yr agenda, byddai penderfyniadau eraill yn cael eu gwneud trwy ddangos dwylo.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr C. Andrews, D. Cushing, Ms E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, A. Hussey, V. James, G. Johnston, Mrs B. Jones, Mrs G. Oliver, B. Owen and Mrs M.E. Sargent.

2. **CYHOEDDIADAU'R MAER**

Cyfeiriodd y Maer at y nifer o ddigwyddiadau ac ymweliadau y mae ef a'r Dirprwy Faer wedi ymgymryd â hwy ers y cyfarfod diwethaf a chyfeiriodd yn benodol at ei bresenoldeb ym Mharti Gardd y Frenhines ym Mhalas Buckingham a chyfeiriodd at yr ymrwymiadau a'r dyletswyddau Maer sydd i ddod dros yr ychydig wythnosau nesaf.

3. **CYHOEDDIAD GAN Y PRIF WEITHREDWR DROS DRO**

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod cyfres o gyfarfodydd y Pwyllgor Penodiadau wedi'u cynnal a bod y penodiadau gweithredol canlynol wedi eu gwneud yn unol â'r ymrwymiad a wnaed i leihau nifer y penodiadau dros dro; Mrs Rhian Kyte fel Pennaeth Adfywio a Chynllunio, Ms Lynne Donovan fel Pennaeth Gwasanaethau Pobl, Mr Marcus Lloyd fel Pennaeth Isadeiledd a Mrs Sue Richards, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg. Yn ychwanegol at hyn, penodwyd Mr Robert Tranter i swydd Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro a Mr Richard Edmunds i swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol. Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r ddau benodiad sy'n weddill yn cael eu gwneud erbyn Medi 2018.

4. **CYFLWYNO GWOBRAU**

**Gwobr Ganmoliaeth y Prif Gwnstabl**

Cydnabu yr Aelod Cabinet dros Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles gyflawniadau Mrs Karen Morris, Rheolwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Oedolion a oedd wedi derbyn Gwobr Ganmoliaeth y Prif Gwnstabl am ei gwaith ar fenter i ymgorffori Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl i dîm y gweithredwyr yng Nghanolfan Alwadau Heddlu Gwent. Mae defnyddio methodoleg brasbennu yn golygu y gall gwybodaeth hanfodol gael ei asesu'n gyflym, anghenion cymhleth gael eu nodi ac atgyfeiriadau priodol gael eu gwneud, gan leihau nifer yr unigolion yn nalfa'r heddlu neu o dan adran o'r ddeddf iechyd meddwl. Y Cytundeb Lefel Gwasanaeth hwn oedd y cyntaf o'i fath a chafodd ei ddatgan fel enghraifft o arfer da.

Cyflwynodd Prif Gwnstabl Heddlu Gwent, Julian Williams y wobr i Mrs Karen Williams a ddaeth ymlaen i gael ei chydnabod am ei llwyddiant eithriadol.

**Llochesau Nos Eglwysi Caerffili**

Cydnabu yr Aelod Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd waith Llochesau Nos Eglwysi Caerffili i ddarparu llety brys sydd mawr ei angen ar gyfer cysgwyr allan yn ystod cyfnodau o dywydd oer eithafol. Yn ystod misoedd y gaeaf 2017/18, darparwyd dros 600 o leoedd gwelyau, gyda rhai defnyddwyr gwasanaeth yn manteisio ar gyfleoedd i gael mynediad i dai a chyflogaeth trwy ddull partneriaeth. I gydnabod eu hymroddiad a'u tosturi, daeth cynrychiolwyr o Gapel y Bedyddwyr Elim, Pontllan-fraith, Eglwys Gatholig Sant Helen, Capel Bedyddwyr Bethany, Rhisga, Byddin yr Iachawdwriaeth, Rhisga, Capel Bedyddwyr Argoed, Eglwys Bedyddwyr y Tabernacl, Trecelyn, Canolfan Oasis, Cefn Fforest, Eglwys y Methodistiaid Crosskeys ac Eglwys Mount Pleasant, Coed Duon ymlaen i dderbyn diolch a gwerthfawrogiad gan y Cyngor am eu cyflawniadau.

5. **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorwyr J. Roberts, G. Kirby ac E. Stenner ddiddordeb bersonol yn Eitem 9 ar yr Agenda - Hysbysiad o Gynnig – Adleoliad Swyddfeydd Adran Gwaith a Phensiynau Caerffili a datganodd y Cynghorydd L. Binding ddiddordeb bersonol a rhagfarnllyd yn Eitem 9 ar yr Agenda – Hysbysiad o Gynnig – Adleoliad Swyddfeydd Adran Gwaith a Phensiynau Caerffili. Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

**6. CYNGOR ARBENNIG - 28AIN MAWRTH 2018**

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 28ain Mawrth 2018 (rhifau cofnodion. 1-6)

**7. CYNGOR – 17EG EBRILL 2018**

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Maer.

Cyngor a gynhaliwyd ar 17eg Ebrill 2018 (rhifau cofnodion. 1-16)

**8. HYSBYSIAD O GYNNIG - I GEFNOGI YMGYRCH CENEDLAETHOL CYFRAITH LUCY I WAHARDD FFERMIO CŴN BACH TRYDYDD PARTI**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn manylu ar yr Hysbysiad o Gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorwyr E. Stenner a'i gefnogi gan y Cynghorwyr S. Morgan, L. Phipps a C. Cuss mewn perthynas ag Ymgyrch Genedlaethol Cyfraith Lucy i Wahardd Ffermio Cŵn Bach Trydydd Parti :

"Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ychwanegu ei gefnogaeth i Ymgyrch Cyfraith Lucy i wahardd ffermio cŵn bach trydydd parti. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ychwanegu ei enw at y rhestr gynyddol o sefydliadau cefnogi a bydd yn amlygu'r ymgyrch yn rhagweithiol i'n trigolion ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor hwn yn gofyn i Arweinydd y Cyngor, y Cyng. David Poole i ysgrifennu at Lywodraeth y DU, gan gefnogi'r alwad am weithredu ar frys."

Roedd yr adroddiad a oedd yn manylu ar yr Hysbysiad o Gynnig wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 1af Mai 2018 a chafodd sylwadau'r Pwyllgor Craffu eu hamlinellu. Hysbyswyd yr Aelodau bod y Pwyllgor Craffu yn ategu'n unfrydol yr Hysbysiad o Gynnig ac yn argymell ei fod yn cael ei dderbyn gan y Cyngor.

Ystyriodd yr Aelodau'r rhesymau dros y Cynnig, a'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Aelod i gefnogi'r cynnig, ac yn dilyn trafodaeth ddyladwy, cytunwyd y dylid gwneud popeth y gellir ei wneud i ddileu'r arfer hwn, a byddent hefyd yn hoffi gweld deddfwriaeth alluogi ar gyfer trwyddedu bridwyr yr holl anifeiliaid.

Fe'i cytunwyd ac eiliwyd bod yr Hysbysiad o Gynnig yn cael ei gymeradwyo ac wrth ddangos dwylo, cytunwyd yn unfrydol am hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn yr adroddiad i: -

(i) gefnogi'r Hysbysiad o Gynnig a'i gais i gefnogi Ymgyrch Cyfraith Cenedlaethol Lucy i wahardd ffermio cŵn bach trydydd parti;

(ii) amlygu'r ymgyrch yn rhagweithiol i drigolion y Fwrdeistref Sirol

(iii) Arweinydd y Cyngor i ysgrifennu at Lywodraeth y DU gan gefnogi'r alwad am weithredu ar frys ar y mater hwn.

**9. HYSBYSIAD O GYNNIG – ADLEOLI SWYDDFEYDD ADRAN GWAITH A PHENSIYNAU CAERFFILI**

Datganodd y Cynghorwyr J. Roberts, G. Kirby ac E. Stenner ddiddordeb personol gan eu bod yn Aelodau o Undeb Llafur PCS.

Datganodd y Cynghorydd L. Binding ddiddordeb personol a rhagfarnol gan ei fod yn Aelod o Undebau Llafur PCS ac ar hyn o bryd mae'n gweithio yn un o'r Swyddfeydd dan ystyriaethau i'w hadleoli a gadawodd y Siambr pan drafodwyd y mater.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad, a oedd yn manylu ar yr Hysbysiad o Gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd D.V. Poole a chefnogwyd gan y Cynghorwyr J. Pritchard, B. Jones, S. Morgan, C. Gordon, C. Cuss, E. Stenner, L. Phipps, N. George a P. Marsden, mewn perthynas â’r adleoli arfaethedig o Swyddfeydd yr Adran Gwaith a Phensiynau Caerffili. Yn unol â Rheol 11 (3) y Cyfansoddiad, roedd y Maer wedi cytuno i ganiatáu i'r cynnig gael ei drin yn y Cyngor, heb ei drafod yn gyntaf mewn pwyllgor trosolwg a chraffu:-

"Mae Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gofyn i Lywodraeth y DU ailystyried adleoli Swyddfeydd Adran Gwaith a Phensiynau Caerffili ac i gael trafodaethau ystyrlon gydag Undeb Llafur PCS. Rydym hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru gefnogi sefyllfa PCS."

Mynegodd yr Aelodau bryder ynglŷn ag effaith yr adleoli ar ganol trefi ledled Cymru, nid yn unig o ran colli nifer yr ymwelwyr a chynlluniau adfywio parhaus. Cyfeiriwyd at ddiffyg asesiad effaith cydraddoldeb mewn perthynas â staff yr Adran Gwaith a Phensiynau, yn enwedig y rhai â chyfrifoldebau gofalu. Mynegwyd pryderon pellach o ran dichonoldeb o symud 600 o staff y tu allan i feini prawf symudedd rhesymol, ynghyd â cholli swyddi â thaliadau da o'r gwahanol ardaloedd. Cyfeiriwyd at Undeb y FDA a'u cyfraniad posibl wrth wrthwynebu'r cynnig. Yn ychwanegol at hyn, cyfeiriodd yr Aelodau at rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'u gwaith cydweithredol i wella ansawdd bywyd a bod hyn yn cael ei danseilio gan benderfyniadau llywodraeth ganolog.

Trafodwyd materion traffig posibl, o ran y mewnlifiad o geir a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar gyfnewidfeydd prysur eisoes ac roedd yr Aelod o'r farn y dylid cynnwys Asesiad Effaith Traffig mewn unrhyw lythyr a anfonwyd. Teimlwyd hefyd bod angen mwy o wybodaeth gan y llywodraeth ganolog ar unrhyw werthusiad risg busnes a wnaed cyn anfon unrhyw ohebiaeth. Er y cafodd ei derbyn, byddai'r wybodaeth ychwanegol hon yn ychwanegu pwysau at yr ohebiaeth. Mynegwyd bod yr oedi sy'n ofynnol ar gyfer casglu'r wybodaeth ychwanegol hon yn bryder a phwysleisiwyd pwysigrwydd ymateb cyn gynted ag y bo modd gan Aelodau eraill.

Ystyriodd yr Aelodau'r resymau dros y Cynnig, a'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr Aelod i gefnogi'r cynnig, ac yn dilyn trafodaeth ddyladwy, fe'i cynigwyd ac eiliwyd bod yr Hysbysiad yn cael ei gefnogi a thrwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD:-

(i) Cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig;

(ii) mae'r Cyngor hwn yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU i ofyn am ailystyried adleoli Swyddfeydd Adran Gwaith a Phensiynau Caerffili a mynd i drafodaethau ystyrlon gydag Undeb Llafur PCS;

(iii) mae'r Cyngor hwn yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn iddynt gefnogi sefyllfa’r PCS.

## 10. FFIOEDD COFRESTRU /CANIATÂU TRWYDDEDU A GAMBLO /– 2018/19

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a argymhellodd gynyddu'r ffioedd trwyddedu/cofrestru/caniatáu o dan y Ddeddf Gamblo 2005 am y flwyddyn ariannol nesaf ac amlinellwyd ffioedd a osodwyd yn ganolog o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo ar 31ain Mai 2018 a chafodd sylwadau'r Pwyllgor hwnnw eu hamlinellu. Nodwyd, yn y dyfodol, y byddai'r Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo'n cymryd y penderfyniadau mewn perthynas â ffioedd a osodir yn lleol heb gyfeirio at y Cyngor ymhellach.

Cyfeiriwyd yr Aelodau at yr argymhellion yn adroddiad y Swyddogion a dywedwyd wrthynt bod y Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo wedi cynnig argymhelliad ychwanegol y dylid gofyn i Lywodraeth Leol Cymru fynd i'r Llywodraeth i gymryd y camau priodol i awdurdodau lleol osod lefel y ffioedd mewn cysylltiad â'r Ddeddf Trwyddedu 2003.

Yn dilyn trafodaeth briodol, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad gwreiddiol y Swyddogion a'r argymhelliad ychwanegol uchod o'r Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo, a thrwy dangos dwylo, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog bod:-

(i) lefel y ffioedd a gynigir o dan Ddeddf Gamblo 2005 ar gyfer 2018/19 (fel yr amlinellir yn Atodiad 1 yr adroddiad) a'r ffi am Hysbysiadau Defnydd Dros Dro (fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad) i gael eu cymeradwyo;

(ii) lefel y ffioedd a godir mewn cysylltiad â Deddf Trwyddedu 2003 (fel y nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad) ac ar gyfer y rhan fwyaf o drwyddedau hapchwarae a thaliadau cysylltiedig (fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad) yn cael eu nodi;

(iii) yn unol â'r pwerau presennol a geir yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo, ar gyfer y blynyddoedd i ddod bydd y penderfyniadau mewn perthynas â ffioedd a osodir yn lleol yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo heb gyfeirio bellach at y Cyngor llawn;

(iv) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fynd i'r Llywodraeth i gymryd y camau priodol i awdurdodau lleol osod lefel y ffioedd a godir mewn cysylltiad â Deddf Trwyddedu 2003.

## 11. FFIOEDD TRWYDDEDU/COFRESTRU/CANIATÂU TACSIS A CHYFFREDINOL - 2018/19

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn argymell ffioedd cyffredinol ar gyfer trwyddedu/cofrestru/caniatâu am y flwyddyn ariannol nesaf.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Tacsi a Chyffredinol ar 31ain Mai 2018 a chafodd sylwadau'r Pwyllgor hwnnw eu hamlinellu. Nodwyd, yn y dyfodol, y byddai'r Pwyllgor Trwyddedu a Gamblo'n cymryd y penderfyniadau mewn perthynas â ffioedd a osodir yn lleol heb gyfeirio at y Cyngor ymhellach.

Cyfeiriwyd yr aelodau at Atodiad 1 yr adroddiad a oedd yn manylu ar y lefel ffioedd arfaethedig ar gyfer 2018/19. Cadarnhaodd y Swyddog fod yr holl ymgynghoriadau statudol, gan gynnwys cyflwyno hysbysiadau,wedi cael eu cynnal a chynghorwyd y dylid ceisio pwerau dirprwyedig hefyd i ganiatáu i'r Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol ystyried unrhyw wrthwynebiadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r broses ymgynghori uchod.

Gofynnwyd am eglurhad mewn perthynas â gweithdrefnau gwiriadau a balansau i sicrhau cywirdeb y ffioedd arfaethedig. Cadarnhaodd y Swyddog fod lefel y ffioedd wedi'i gosod gan ddefnyddio'r pecyn cymorth cyfrifiannell ffioedd a ddyfeisiwyd gan Banel Arbenigol Trwyddedu Cymru Gyfan ac roedd yn adlewyrchu'r hyn oedd ei angen er mwyn talu am gostau darparu'r gwasanaeth. Darparwyd sicrwydd bod y ffioedd yn rhesymol ac yn gymesur â chost y prosesau sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn drwyddedu. Ni allent gael eu gosod ar lefel a fyddai'n gwneud elw neu'n atal rhai busnesau rhag gweithredu mewn ardal.

Mynegwyd pryder ynglŷn â'r lefel gynyddol arfaethedig ar Drwyddedau Cerbydau Tacsi a Thrwyddedau Gyrwyr o ystyried costau rhedeg ychwanegol y busnesau hynny o ran tanwydd ac yswiriant. Mynegwyd pryder tebyg hefyd mewn perthynas â ffioedd Masnachu Stryd a chadarnhaodd y Swyddog y rhesymeg y tu ôl i'r lefelau arfaethedig.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, cafodd ei gytuno a'i eilio bod yr argymhellion a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog yn cael eu cymeradwyo a thrwy ddangos dwylo ac wrth nodi roedd 7 yn erbyn a 5 yn ymatal, cytunwyd gan y mwyafrif yn bresennol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog bod:-

i) Ffioedd arfaethedig ar gyfer trwyddedau cerbydau hacnai/cerbydau hurio preifat ar gyfer 2018/19 yn cael eu hysbysebu a'r Pwyllgor Tacsi a Chyffredinol yn cael pwerau dirprwyedig i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a dderbynir a phenderfynu ar y ffioedd sydd i'w codi a’r dyddiad y dylai unrhyw amrywiadau ddod i rym;

(ii) yn unol â'r pwerau presennol sydd wedi'u cynnwys yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Tacsis a Chyffredinol, yn y dyfodol, y penderfyniadau mewn perthynas â ffioedd a nodir yn yr adroddiad hwn yn cael eu gwneud heb gyfeirio ymhellach at y Cyngor.

## 12. CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI YN YMATEB I GRYFHAU PAPUR GWYRDD LLYWODRAETH LEOL

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer yr ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl'.

Hysbyswyd yr aelodau bod tri opsiwn wedi cael eu cynnig yn y Papur Gwyrdd, Opsiwn 1 - Cyfuniad Gwirfoddol erbyn 2022, Opsiwn 2 - Dull fesul cam gyda mabwysiadwyr cynnar yn cyfuno erbyn 2022 a'r holl awdurdodau eraill erbyn 2026 ac yn olaf Opsiwn 3 a gynigiodd un rhaglen gyfuno gynhwysfawr erbyn 2022. O safbwynt Caerffili, cynigiodd y Papur Gwyrdd uno'r awdurdod hwn gyda Chyngor Dinas Casnewydd. Cyfeiriodd y Swyddog yr Aelodau at Atodiad 1 yr adroddiad a oedd yn manylu ar y cwestiynau ymgynghori a'r ymatebion arfaethedig.

Mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth ar gyfer yr ymatebion i'r ymgynghoriad a mynegodd eu pryderon ynglŷn â'r uno arfaethedig gyda Chyngor Dinas Casnewydd. Teimlwyd na fyddai'r cynnig o fudd i drigolion Caerffili na Chasnewydd ac nad oedd mwy o reidrwydd yn golygu ei fod yn well. Cyfeiriwyd at y llwyddiannau a ddangoswyd yn gweithio ar ôl-troed rhanbarthol a mynegwyd y farn mai hwn yn hytrach nag ad-drefnu oedd dyfodol llywodraeth leol. Trafodwyd yr effaith bosibl ar y Cytundeb Dinesig yn arbennig o ran y gallu i gyflawni o dan yr ad-drefnu arfaethedig. Holwyd hefyd y doethineb o symud ymlaen â phroses ad-drefnu gostus yn ystod cyfnod o lymder.

Cytunodd yr aelodau nad oedd unrhyw asesiad ariannol cadarn o gostau na buddion o ganlyniad i ad-drefnu a theimlwyd bod yr awdurdod hwn mewn sefyllfa ddigon cryf i fod yn

gynaliadwy heb gyfuno.  Cyfeiriwyd at yr effaith bosibl ar ddarparu gwasanaethau, yn enwedig yng ngoleuni'r penderfyniadau a wneir gan lawer o awdurdodau lleol i gael gwaith wedi'i wneud yn allanol, y gwasanaethau y mae Caerffili wedi eu cadw. Cyfeiriodd yr Aelodau hefyd at yr effaith negyddol ar ysbryd y staff y byddai cyfuno a orfodir yn sicr i achosi heb sôn am golli effeithlonrwydd dros nifer o flynyddoedd tra'r bod y broses uno yn cael ei gwneud.

Mynegwyd barn wedyn bod gormod o awdurdodau o dan y system bresennol gyda llawer ohonynt wedi eu rheoli'n wael ac yn tanberfformio ac roedd yr Aelod yn cyfeirio at berfformiad gwael o ran cyflawniad addysgol, twf busnes, adfywio a thlodi.  Teimlai'r Aelod fod angen i lywodraeth leol resymoli a moderneiddio.

Rhoddodd yr aelodau gofnod o'u diolch i Kath Peters, Rheolwr Polisi am y gwaith caled wrth baratoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r ymatebion a gynhwysir yn Atodiad 1, fe'i cynigwyd ac eiliwyd eu bod yn cael eu cymeradwyo a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru a thrwy bleidleisio'n electronig ac wrth nodi bod 1 yn erbyn hyn, cafodd ei gytuno gan y mwyafrif oedd yn bresennol.

> PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwyswyd yn adroddiad y Swyddog gymeradwyo'r ymateb arfaethedig i'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru 'Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl.

**13. I DDERBYN AC I ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHREFN 10 (2).**

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau dan Reol Gweithdrefn 10 (2).

Terfynwyd y cyfarfod am 2.40pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw newidiadau neu gywiriadau a gytunir ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 5ed Hydref 2018 ac fe'u llofnodwyd gan y Maer.

________________________

MAER